# Prifysgol Aberystwyth – Polisi Beichiogrwydd a Mamolaeth Myfyrwyr ac Absenoldeb Mabwysiadu ac Absenoldeb Rhiant i Fyfyrwyr

## Cyflwyniad

Mae Prifysgol Aberystwyth yn credu na ddylai bod yn feichiog neu ddod yn feichiog, terfynu beichiogrwydd neu fod â phlentyn ifanc iawn (gan gynnwys trwy fabwysiadu), ynddo'i hun, rwystro myfyrwraig rhag dechrau rhaglen astudio yn y Brifysgol, llwyddo ynddi, neu ei chwblhau. Mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i fod mor hyblyg â phosibl, gan sicrhau yr un pryd nad yw unrhyw gyfaddasiadau sy'n cael eu gwneud ar gyfer y fyfyrwraig yn peryglu safonau academaidd. Bydd y trefniadau arbennig y gellir ac y dylid eu gwneud ar gyfer myfyrwraig o dan yr amgylchiadau hyn yn amrywio o'r naill Adran i'r llall, ond mae'r ymagwedd gyffredinol sydd i'w dilyn o dan yr amgylchiadau hyn yn gyson ar draws y Brifysgol.

Mae beichiogrwydd a mamolaeth yn nodweddion gwarchodedig ers cyflwyno Deddf Cydraddoldeb 2010. Ers hynny, mae myfyrwraig sy'n feichiog, neu sydd wedi rhoi genedigaeth o fewn y 26 wythnos ddiwethaf, yn cael ei gwarchod yn benodol rhag triniaeth lai ffafriol. Yn ychwanegol, mae myfyrwraig sy'n bwydo o'r fron yn cael ei gwarchod yn benodol erbyn hyn rhag triniaeth lai ffafriol ym meysydd addysg a darparu gwasanaethau.

Mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i sicrhau bod pob myfyriwr a phob ymgeisydd yn cael eu trin yn deg. Mae'r Brifysgol yn parchu amrywiaeth ei chymuned o fyfyrwyr, a gall cyfrifoldebau sy'n ymwneud â beichiogrwydd a pherthnasoedd teuluol gael eu hamlygu mewn nifer o wahanol ffyrdd. Mae'r polisi hwn yn ceisio bod yn gwbl gynhwysol o unrhyw berthnasoedd teuluol sydd gan y myfyrwyr, ac yn ceisio sicrhau bod yr holl fyfyrwyr yr effeithir arnyn nhw drwy enedigaeth plentyn, cyflwyno plentyn i'w teulu, neu golli plentyn, yn cael mynediad at yr un lefel o gefnogaeth a hyblygrwydd.

## Rhychwant

Mae'r polisi hwn yn gymwys i holl fyfyrwyr cofrestredig a holl ymgeiswyr Prifysgol Aberystwyth y bydd arnyn nhw angen cymorth o dan ddarpariaethau'r polisi hwn adeg ymuno â'r Brifysgol.

Er mwyn sicrhau bod y polisi'n gwbl gynhwysol, mae'r darpariaethau ynddo yn gymwys i'r holl fyfyrwyr sy'n perthyn i'r categorïau a ganlyn:

1. Myfyrwyr ac ymgeiswyr sy'n feichiog, sydd wedi rhoi genedigaeth o fewn y flwyddyn ddiwethaf, sydd wedi cael erthyliad neu sydd wedi profi camesgoriad, marw-

enedigaeth, neu farwolaeth newydd-anedig o fewn y flwyddyn ddiwethaf, wedi dod yn rhiant trwy fenthyg croth, neu sydd wrthi'n maethu neu'n mabwysiadu plentyn (neu ymgeiswyr a fydd yn dod o fewn y diffiniad hwn adeg ymuno â'r Brifysgol).

2. Myfyrwyr ac ymgeiswyr sy'n gyd-rieni i blentyn a anwyd (gan gynnwys trwy fenthyg croth), a gafodd ei faethu, neu ei fabwysiadu, neu fyfyrwyr ac ymgeiswyr yr effeithiwyd arnyn nhw gan erthyliad neu gamesgoriad, marw-enedigaeth neu farwolaeth newydd-anedig o fewn y flwyddyn ddiwethaf, p'un a ydyn nhw mewn perthynas â'r rhiant dan sylw ai peidio.
3. Myfyrwyr ac ymgeiswyr sydd â phartner sy'n feichiog, sydd wedi rhoi genedigaeth o fewn y flwyddyn ddiwethaf, sydd wedi cael erthyliad neu wedi profi camesgoriad, marw-enedigaeth neu farwolaeth newydd-anedig o fewn y flwyddyn ddiwethaf, wedi dod yn rhiant drwy fenthyg croth, neu sydd wrthi'n maethu neu'n mabwysiadu plentyn, p'un a ydyn nhw'n cael eu hystyried yn rhiant i'r plentyn ai peidio.

Dylai amgylchiadau personol myfyrwyr sy'n dod o fewn cylch gwaith y polisi hwn gael eu trin yn gyfrinachol. Dylai'r myfyrwyr deimlo'n sicr na fydd gwybodaeth bersonol yn cael ei rhannu heb eu caniatâd, a phan fydd caniatâd yn cael ei roi, y bydd yr wybodaeth yn cael ei rhannu er mwyn sicrhau eu bod yn ddiogel ac er mwyn eu cefnogi. Caiff yr holl ddata ei reoli yn unol â threfniadau Diogelu Data y Brifysgol.

Nid yw beichiogrwydd, mamolaeth a thadolaeth staff, nac absenoldeb rhiant sy'n aelod o'r staff, wedi'u cynnwys yn y polisi hwn. Mae polisïau sy'n ymwneud â staff ar gael gan yr Adran Adnoddau Dynol. Er hynny, pan fo aelod o'r staff yn fyfyriwr yn y Brifysgol hefyd, fe fydd y polisi hwn yn gymwys ar gyfer unrhyw gymorth a ddarperir i'r unigolyn mewn perthynas â'u hastudiaethau.

## Crynodeb o'r Cyfrifoldebau Allweddol:

### Bydd y Brifysgol yn sicrhau:

- Bod unrhyw fyfyrwraig sy'n beichiogi cyn neu yn ystod cyfnod o astudio yn y Brifysgol yn derbyn cyfaddasiadau cyn belled ag y bo'n ymarferol i'w galluogi i gwblhau ei rhaglen astudio, ar yr amod bod safonau academaidd yn cael eu cynnal
- Bod y staff perthnasol yn cael gwybod am delerau'r polisi hwn a'u cyfrifoldebau sy'n codi odano
- Bod cymorth ac arweiniad ar gael i aelodau o'r staff sy'n gwneud asesiadau risg ar elfennau o'r rhaglen astudio sy'n debygol o arwain at risg i iechyd a diogelwch y fyfyrwraig neu'r plentyn yn y groth

- Bod staff yn y tîm Hygyrchedd Myfyrwyr ar gael i drafod gyda'r staff y ffordd orau o helpu myfyrwraig feichiog i barhau i astudio er mwyn sicrhau ei bod yn gallu cwblhau ei rhaglen astudio
- Bod cymorth priodol ar gael i fyfyrwyr drwy wahanol wasanaethau cymorth
- Bod y polisi'n cael ei adolygu a'i ddiweddaru yn ôl yr angen

## Bydd yr Adrannau Academaidd yn sicrhau:

- Bod y polisi'n cael cyhoeddusrwydd eang a'i fod ar gael i'r staff a'r myfyrwyr
- Bod myfyrwyr yn cael gwybod am y polisi a'u hannog i ddatgelu beichiogrwydd yn gyfrinachol yn gynnar, yn enwedig lle gallai elfennau o'u rhaglen astudio arwain at risg i iechyd a diogelwch y fyfyrwraig neu'r plentyn yn y groth
- Bod y staff yn ymwybodol o'r polisi fel eu bod yn gallu ymateb yn briodol pan fydd myfyrwraig yn datgelu ei bod yn feichiog ac yn chwilio am gymorth i barhau â'i rhaglen astudio
- Bod asesiad risg, neu gyfres o asesiadau risg, yn cael eu trefnu, cyn gynted ag y bo myfyrwraig yn datgelu eu bod yn feichiog, er mwyn sicrhau nad oes unrhyw elfennau o'r rhaglen astudio yn peri risg i iechyd a diogelwch y fyfyrwraig neu'r plentyn yn y groth
- Lle bynnag y bo'n ymarferol, bod cyfaddasiadau'n cael eu gwneud i sicrhau bod myfyrwraig feichiog, neu fyfyrwraig sydd â phlentyn ifanc iawn, yn gallu cwblhau ei rhaglen astudio
- Bod aelod benywaidd o'r staff yn cael ei phenodi, os gofynnir am hynny, i'r fyfyrwraig feichiog drafod ei hanghenion cymorth gyda hi
- Bod y fyfyrwraig yn cael gwybodaeth am ffynonellau cyngor/cymorth eraill (yn enwedig cyngor ynghylch mewnfudo yn achos myfyrwyr rhyngwladol, sydd ar gael gan y Cynghorydd Myfyrwyr Rhyngwladol yn yr adran Gwasanaethau Myfyrwyr.
- Bod Asesiad Risg Beichiogrwydd yn cael ei gynnal a bod trefniadau cymorth penodol i fyfyrwyr ac ymgeiswyr sy'n feichiog yn cael eu cytuno. Tiwtor Personol neu Oruchwylydd Ymchwil y fyfyrwraig neu'r ymgeisydd fydd yn cyflawni hyn fel rheol. Er hynny, o dan rai amgylchiadau (megis ymgeisydd sydd heb gael Tiwtor Personol eto, neu pan fo gan aelod arall o'r staff wybodaeth fanylach am agweddau perthnasol ar y rhaglen), gall hyn gael ei wneud gan aelod perthnasol arall o'r staff academaidd, neu, lle bo angen, aelod o'r adran Gwasanaethau Myfyrwyr. Bydd cymorth ar gael gan y Gwasanaethau Myfyrwyr a'r Tîm Iechyd, Diogelwch ac Amgylchedd yn ôl y gofyn.
- Bod Cynllun Cymorth Myfyrwyr yn cael ei gytuno ar gyfer myfyrwyr ac ymgeiswyr, gan gynnig hyblygrwydd ar gyfer y sefyllfa unigol. Tiwtor Personol neu Oruchwylydd Ymchwil y fyfyrwraig neu'r ymgeisydd fydd yn cyflawni hyn fel rheol. Er hynny, o dan rai amgylchiadau (megis ymgeisydd sydd heb gael Tiwtor Personol eto, neu pan fo gan aelod arall o'r staff wybodaeth fanylach am agweddau perthnasol ar y rhaglen), gall hyn

gael ei wneud gan aelod perthnasol arall o’r staff academaidd, neu, lle bo angen, aelod o’r adran Gwasanaethau Myfyrwyr. Bydd cymorth ar gael gan y Gwasanaethau Myfyrwyr a'r Tîm Iechyd, Diogelwch ac Amgylchedd yn ôl y gofyn.

## Bydd y Gwasanaethau Myfyrwyr yn sicrhau:

- Eu bod yn cydgysylltu â’r staff academaidd perthnasol, pan fo myfyrwraig neu ymgeisydd wedi datgelu eu hamgylchiadau i aelod o staff y Gwasanaethau Myfyrwyr (mae hyn hefyd yn gymwys i’r staff derbyn/allgymorth). O dan amgylchiadau arferol, bydd Asesiadau Risg Beichiogrwydd a threfniadau cymorth yn cael eu harwain gan staff academaidd sydd â gwybodaeth fanwl o'r rhaglen astudio er mwyn llywio’r trefniadau. Er hynny, pan fo'r fyfyrwraig neu'r ymgeisydd yn gofyn am hynny'n benodol, neu pan fo gan fyfyrwraig neu ymgeisydd anghenion cymorth cymhleth, fe all yr Asesiad Risg Beichiogrwydd a'r Cynllun Cymorth Myfyrwyr gael eu trefnu gan aelod perthnasol o’r Gwasanaethau Myfyrwyr.
- Bod cyngor a chymorth yn cael eu darparu i’r staff academaidd mewn perthynas â'r modd y mae'r polisi hwn yn cael ei weithredu.
- Bod cyngor a chymorth yn cael eu darparu i fyfyrwyr ac ymgeiswyr mewn perthynas â'r modd y mae'r polisi hwn yn cael ei weithredu.

## Bydd myfyrwyr ac ymgeiswyr yn sicrhau:

- Eu bod yn datgelu eu hamgylchiadau i aelod o’r staff y gellir ymddiried ynddynt (sef eu Tiwtor Personol, eu Goruchwylydd Ymchwil, aelod o staff y Gwasanaethau Myfyrwyr, neu aelod o staff derbyn neu staff allgymorth o bosibl), er mwyn cael trafod trefniadau cymorth ac addasiadau. Pan fo myfyrwraig yn feichiog (neu pan fo ymgeisydd yn feichiog adeg ymuno â'r Brifysgol), anogir nhw i wneud datgeliad cynnar er mwyn i Asesiad Risg Beichiogrwydd a Chynllun Cymorth Myfyrwyr gael eu trefnu i sicrhau nad yw astudiaethau'r fyfyrwraig yn peri risg iddi hi neu i’w phlentyn yn y groth. Yn benodol, mae'n bwysig bod y Brifysgol yn cael gwybod am feichiogrwydd mor gynnar â phosibl os oes elfennau o'r rhaglen a all beri risg i iechyd a diogelwch y fyfyrwraig a/neu'r plentyn. Gall hyn fod yn arbennig o berthnasol i fyfyrwyr y mae eu rhaglenni’n cynnwys gwaith labordy neu waith ymarferol.
- Os yw'r fyfyrwraig ar leoliad pan gaiff y beichiogrwydd ei gadarnhau neu os yw’n disgwyl dechrau lleoliad yn ystod y beichiogrwydd, dylai'r fyfyrwraig hysbysu darparwr y lleoliad am y beichiogrwydd hefyd. Os yw’r fyfyrwraig ar raglen gyfnewid allanol pan gaiff y beichiogrwydd ei gadarnhau neu os yw i fod i ddechrau rhaglen gyfnewid allanol yn ystod y beichiogrwydd, dylai’r fyfyrwraig hysbysu'r sefydliad cyfnewid allanol hefyd.
- Mae myfyrwyr ac ymgeiswyr sydd â phartner sy'n feichiog, sydd wedi cael erthyliad, sydd wedi profi camesgoriad, marw-enedigaeth neu farwolaeth newydd-anedig, neu

sydd wrthi'n mabwysiadu neu'n maethu plentyn, hefyd yn cael eu cynghori i roi gwybod am eu sefyllfa i aelod o'r staff y gellir ymddiried ynddynt mor gynnar â phosibl. Bydd hyn yn galluogi'r Brifysgol i roi cymorth i'r fyfyrwraig neu'r ymgeisydd.

- Pan fo myfyrwraig neu ymgeisydd yn dewis peidio â datgelu amgylchiadau i'r Brifysgol, ni fydd y Brifysgol yn gallu ymgymryd â rhoi trefniadau cymorth ar waith. Mater cwbl wirfoddol yw gofyn am gymorth o dan y polisi hwn i fyfyrwyr, nad ydyn nhw o dan rwymedigaeth i ofyn amdano. Pan nad yw myfyrwraig wedi gofyn am gymorth, a bod yna bryderon bod materion iechyd sy'n gysylltiedig â beichiogrwydd yn effeithio ar ei Ffitrwydd i Astudio, dylid rheoli hyn o dan y Polisi Ffitrwydd i Astudio. Ni ddylid tybio bod myfyrwyr yn feichiog oni bai eu bod wedi rhoi gwybod i'r Brifysgol eu bod.

## Oes angen i fyfyrwraig hysbysu ei Hadran Academaidd ei bod yn feichiog?

Sylwch ei bod yn arbennig o bwysig bod myfyrwraig yn hysbysu ei Hadran Academaidd yn gynnar yn ystod beichiogrwydd pan fo risg bosibl i iechyd a diogelwch y fyfyrwraig a/neu ei phlentyn (gweler isod). Wedyn dylai'r Adran Academaidd gynnal asesiad risg a chytuno ar Gynllun Cymorth Myfyrwyr gyda'r fyfyrwraig cyn gynted â phosibl er mwyn lleihau unrhyw risg bosibl.

Nid yw myfyrwyr o dan unrhyw rwymedigaeth i hysbysu eu Hadran Academaidd os ydyn nhw'n dod yn feichiog, yn cael plentyn, neu'n penderfynu terfynu beichiogrwydd tra bôn nhw'n fyfyrwraig yn Aberystwyth. Er hynny, mae'n bwysig nodi na fydd Adran yn gallu cymryd agwedd hyblyg tuag at ei hastudiaethau a'i phrofiad myfyriwr ehangach, na darparu cymorth penodol i'r fyfyrwraig, oni bai bod yr Adran yn gwybod am y sefyllfa.

Os gofynnir am hynny, bydd yr Adran Academaidd yn dynodi aelod benywaidd o'r staff i drafod anghenion cymorth o'r fath.

Wrth benderfynu a ddylid rhoi gwybod i'w Hadran Academaidd ai peidio, anogir myfyrwyr i ystyried y canlynol:

• Gall fod elfennau mewn rhaglen astudio a allai greu risg i iechyd a diogelwch myfyrwraig feichiog a/neu ei phlentyn

• Os yw absenoldeb y fyfyrwraig sy'n gysylltiedig â beichiogrwydd (er enghraifft, ar gyfer apwyntiadau cynenedigol) yn effeithio'n arwyddocaol ar astudiaethau'r fyfyrwraig, dim ond os caiff wybod am y rhain y bydd yr Adran yn gallu rhoi ystyriaeth briodol i'r rhesymau dros yr absenoldeb. Ni fydd Adran Academaidd y fyfyrwraig yn gallu trefnu asesiadau risg a chynllun cymorth myfyrwyr priodol oni bai ei bod yn ymwybodol o'r beichiogrwydd.

• Mewn rhai achosion, gallai absenoldeb myfyrwraig o'r Brifysgol sy'n gysylltiedig â beichiogrwydd fod yn rhywbeth y mae angen ei drafod gyda sefydliadau eraill. Er enghraifft, os oes myfyrwraig ymchwil ôl-raddedig wedi cael Ysgoloriaeth Prifysgol neu Adran neu gyllid gan un o'r Cynghorau Ymchwil neu gorff allanol arall, dylai gyfeirio at y telerau ac amodau sy'n ymwneud â'i dyfarniad. Yn gyffredinol, bydd yn ofynnol i'r fyfyrwraig hysbysu ei goruchwylydd ymchwil ac mewn rhai achosion bydd rhaid llenwi ffurflen berthnasol Cais am Gyfnod Mamolaeth, wedi'i hategu â thystysgrif MATB1 neu lythyr meddyg. Gallai hyn ei gwneud yn bwysicach i'r fyfyrwraig roi gwybod am y sefyllfa i'r Adran.

• Weithiau, gall absenoldeb myfyrwraig o'r Brifysgol effeithio'n andwyol ar waith myfyrwyr eraill y mae'n gweithio ochr yn ochr â nhw (er enghraifft, ar brosiect grŵp neu mewn tîm ymchwil), a allai ei gwneud yn bwysicach iddi hysbysu'r Adran, er mwyn i gynlluniau gael eu gwneud i ddelio ag unrhyw faterion o'r fath sy'n deillio o'r absenoldeb.

**Nodyn i Fyfyrwyr Rhyngwladol:** Os bydd myfyrwraig ryngwladol yn gofyn am fisa Haen 4 Myfyriwr Cyffredinol i aros yn y Deyrnas Unedig yn ystod ei chyfnod astudio, rhaid cymryd rheoliadau Asiantaeth Ffiniau'r Deyrnas Unedig (UKBA) i ystyriaeth. Bydd angen i fyfyrwraig ryngwladol sy'n dymuno gohirio'i hastudiaethau am fwy na dau fis ymadael â'r Deyrnas Unedig. Dylai'r Adran Academaidd a'r fyfyrwraig ofyn am gyngor y Cynghorydd Myfyrwyr Rhyngwladol yn yr adran Gwasanaethau Myfyrwyr mor gynnar â phosibl yn ystod y beichiogrwydd. Bydd hyn yn galluogi cydweithwyr i sicrhau bod unrhyw drefniadau y cytunir arnyn nhw gyda'r fyfyrwraig yn cydymffurfio â gofynion UKBA. Mae trafodaethau cynnar hefyd yn bwysig oherwydd gallai ystyriaethau iechyd effeithio ar benderfyniad hwyr neu annisgwyl i hedfan adref.

Mae'n bwysig nodi, yn achos myfyrwyr sydd â chysylltiad posibl ag ymbelydredd neu gemegau peryglus, bod y risg fwyaf i iechyd embryo neu ffetws yn codi o fewn y 13 wythnos gyntaf yn y beichiogrwydd. Cynghorir myfyrwyr o dan yr amgylchiadau hyn yn gryf i hysbysu eu Hadran o'u beichiogrwydd er mwyn caniatáu i asesiad risg a chynllun cymorth i fyfyrwyr gael eu trefnu. Mae canllawiau pellach ar risgiau o'r fath i'w gweld yn yr atodiad i'r polisi hwn.

Yn achos apwyntiadau cynenedigol sydd wedi'u trefnu ymlaen llaw, fel arfer byddai angen hysbysu'r Adran Academaidd am y rhain ymlaen llaw er iddyn nhw gael eu cymryd i ystyriaeth.

## Pa gymorth sydd ar gael i helpu myfyrwraig i benderfynu a ddylai barhau â'i beichiogrwydd neu beidio?

Er mai'r fyfyrwraig ei hun yn unig all wneud y penderfyniad a ddylid parhau â'i beichiogrwydd ai peidio, gall ystod o wasanaethau ar draws y Brifysgol ac undeb y myfyrwyr helpu drwy ddarparu

cymorth a gwybodaeth gyfrinachol am yr opsiynau sydd ar gael, ac, mewn rhai achosion, cymorth ymarferol arall.

Mae'r gwasanaethau hyn yn cynnwys, er enghraifft:

- Gwasanaeth Cynghori Undeb Myfyrwyr Aberystwyth (www.umaber.co.uk/cyngor/)
- Gwasanaethau Cyngor, Gwybodaeth ac Arian
- Yr adran Lles Myfyrwyr www.aber.ac.uk/studentwellbeing

Mae myfyrwyr hefyd yn cael troi at sefydliadau allanol i gael gwybodaeth, cyngor neu gymorth. Mae'r rhain yn cynnwys eu meddyg teulu, Canolfannau Cynghori Brook (www.brook.org.uk), y Gymdeithas Cynllunio Teulu (www.fpa.org.uk).

## Pa broses a ddylai gael ei dilyn er mwyn i fyfyrwraig a'i Hysgol neu ei Chyfadran drafod yr effaith y gallai beichiogrwydd neu gyfrifoldebau gofal plant y fyfyrwraig ei chael ar ei hastudiaethau?

Mae'r adran hon yn amlinellu cyfres o gamau i fyfyrwyr a staff eu dilyn er mwyn trafod ac ymateb i ofynion myfyrwraig unigol sy'n feichiog. Dylid darllen yr adran hon ar y cyd â'r siart llif camau allweddol sy'n cyd-fynd â'r polisi hwn.

**Cam 1:** Cynghorir y fyfyrwraig i ymgynghori â'i meddyg teulu i drafod materion meddygol ynglŷn â'i beichiogrwydd cyn mynd at ei Hadran Academaidd. Mae'n arbennig o bwysig cymryd cyngor yn gynnar os oes unrhyw risg bosibl i iechyd a diogelwch.

Gan fod y broses yn canolbwyntio ar ystyried goblygiadau’r beichiogrwydd ar gyfer rhaglen astudio a gwaith academaidd y fyfyrwraig, atgoffir y myfyrwyr hefyd y gallan nhw gysylltu, unrhyw bryd, â ffynonellau cyngor a chymorth eraill (gan gynnwys Gwasanaethau Myfyrwyr, Gwasanaeth Cynghori Undeb Myfyrwyr Aberystwyth, Caplaniaeth Aberystwyth etc.

### Cam 2a: Myfyrwyr a Addysgir

Mae gan fyfyrwyr hawl i ofyn am gyfarfod â'u tiwtor personol, eu goruchwylydd ymchwil neu aelod arall o staff y gellir ymddiried ynddyn nhw.

Rhaid i'r fyfyrwraig a'r aelod perthnasol o’r staff gyfarfod i drafod a chytuno ar gynllun ar gyfer parhau i astudio. Pryd bynnag y bo modd, dylai'r aelod staff gysylltu â'r fyfyrwraig o fewn 5 diwrnod gwaith ar ôl i'r cais ddod i law oddi wrth y fyfyrwraig a chyfarfod â hi cyn gynted â

phosibl wedyn. Os yw'r cyfaddasiadau y cytunir arnyn nhw’n dod o dan amgylchiadau arbennig, dylai'r ffurflen berthnasol gael ei llenwi a'i chyflwyno yr un fath ag arfer.

Yn y cyfarfod, mae'n bwysig cynnal asesiad risg. Yn ychwanegol, rhaid ystyried yn ofalus yr amrywiaeth o ffyrdd y gellir galluogi'r fyfyrwraig i barhau â'i hastudiaethau yn ystod ei beichiogrwydd neu ar ôl yr enedigaeth a fydd yn llywio'r broses o gwblhau Cynllun Cymorth Myfyrwyr. Er enghraifft, fe allai'r rhain gynnwys:

- Cytuno ar gyfnodau absenoldeb a gwneud trefniadau i’r fyfyrwraig ddal i fyny ar ddarlithoedd/tiwtorialau a gollwyd am resymau cysylltiedig â beichiogrwydd/genedigaeth er mwyn sicrhau nad yw o dan anfantais academaidd.
- Addasu amserlenni/terfynau amser ar gyfer gwaith cwrs sydd i’w asesu neu derfynau amser ar gyfer cyflwyno gwaith i’w arholi os yw'r beichiogrwydd neu'r enedigaeth yn atal y fyfyrwraig rhag cydymffurfio.
- Gofyn am gymeradwyaeth, fel y bo'n briodol, ar gyfer dulliau asesu amgen i’r fyfyrwraig (er enghraifft, asesiad ysgrifenedig yn lle perfformiad corfforol) os yw'r beichiogrwydd neu'r enedigaeth yn atal y dulliau asesu arferol.
- Caniatáu i’r fyfyrwraig ail-sefyll y cynnig cyntaf yn ystod cyfnodau arholiadau yn y dyfodol, er enghraifft mewn sefyllfa lle mae'r beichiogrwydd neu'r enedigaeth yn atal y fyfyrwraig rhag sefyll arholiad ar yr adeg arferol ar gyfer ei rhaglen astudio.
- Bod y fyfyrwraig yn cymryd peth amser allan o'i hastudiaethau a fyddai'n golygu ei bod yn llenwi Ffurflen Ymadael Dros Dro (myfyrwyr a addysgir) neu’n siarad â'i Thiwtor Ymchwil i drafod atal/ymestyn yr astudiaethau (myfyrwyr ymchwil), fel arfer am gyfnod sydd wedi'i bennu ymlaen llaw. Gellir ymestyn y cyfnod o absenoldeb dros dro os bydd yr amser sydd ei angen i gwblhau'r rhaglen astudio yn dal i fod o fewn y terfyn amser hiraf a ganiateir ar gyfer y rhaglen gan y Brifysgol (a/neu, lle bo’n gymwys, gan gyrff proffesiynol).

Yn ychwanegol ag ymdrin â chynlluniau hirdymor y fyfyrwraig ynglŷn â'i hastudiaethau, dylai’r cynllun ar gyfer parhau’r cynllun astudio hefyd:

- Darparu ar gyfer gofal cynenedigol y fyfyrwraig.
- Cynnwys seibiant o fod yn bresennol yn y Brifysgol o bythefnos o leiaf ar ôl rhoi genedigaeth (neu 4 wythnos yn achos lleoliad gwaith mewn amgylchedd ffatri) am resymau iechyd, a
- Chynnwys darpariaeth ar gyfer ailintegreiddio’r fyfyrwraig yn y rhaglen astudio ar ôl dychwelyd o unrhyw absenoldeb maith.

Dylai'r aelod o’r staff sy'n goruchwylio'r trefniadau cymorth gyfeirio at y canllawiau isod wrth ystyried pa hyblygrwydd a allai fod yn briodol mewn unrhyw sefyllfa benodol.

**Cam 2b: Myfyrwyr Gradd Ymchwil Ôl-raddedig**

Os bydd myfyrwraig gradd ymchwil yn dod yn feichiog, yr unigolyn priodol i gysylltu â nhw fel arfer yw ei Goruchwylydd/Goruchwylwyr Ymchwil yn yr Adran Academaidd. Bydd y Goruchwylydd/Goruchwylwyr Ymchwil a'r tiwtor ymchwil yn cydweithio â’r fyfyrwraig i ystyried effaith y beichiogrwydd ac unrhyw benderfyniad sy'n deillio o hynny i atal ei hastudiaethau. Bydd gan fyfyrwyr ôl-raddedig sy'n cael eu talu gan y brifysgol statws cyflogaeth a bydd rheoliadau Cyfnod Mamolaeth y Brifysgol yn gymwys.

Y fyfyrwraig sy’n gyfrifol am wirio goblygiadau atal astudiaethau gyda'r corff a ddyfarnodd ei hysgoloriaeth neu gyda’i darparwr a hynny yn gynnar. O ran myfyrwyr sy'n cael eu hariannu gan un o’r Cynghorau Ymchwil, neu sydd ar Ysgoloriaeth Ymchwil y Brifysgol, mae cyngor ar gael gan Ysgol y Graddedigion.

**Cam 3:** Dylai'r aelod o’r staff sy'n goruchwylio'r trefniadau cymorth i’r fyfyrwraig (e.e. y tiwtor personol, y goruchwylydd ymchwil neu berson dynodedig arall) sicrhau bod camau priodol yn cael eu cymryd mewn perthynas â materion iechyd a diogelwch. Ran amlaf, bydd hyn yn golygu asesiad risg ar gyfer y fyfyrwraig unigol. Gallwch ofyn am gyngor gan yr Adran Academaidd neu gan Wasanaeth Iechyd, Diogelwch ac Amgylchedd y Brifysgol.

I rai myfyrwyr, er enghraifft y rhai sy'n cymryd rhan mewn teithiau maes, sy’n astudio pwnc mewn labordy, sy’n gweithio gydag offer sy'n achosi perygl i iechyd person beichiog neu i blentyn yn y groth (e.e. offer sy’n cynhyrchu ymbelydredd) neu sy'n dilyn rhaglen astudio sy'n cynnwys lefelau uchel o weithgarwch corfforol, bydd hi hyd yn oed yn bwysicach bod goblygiadau iechyd a diogelwch beichiogrwydd yn cael eu hystyried o ddifrif. Yn y sefyllfaoedd hyn, dylai’r staff ofyn am gyngor cyn gynted â phosibl gan yr Adran Academaidd a'r Rheolwr Iechyd, Diogelwch ac Amgylchedd a dylid cwblhau asesiad risg llawn.

Os nad yw'n ymarferol newid yr amodau astudio i ymateb i'r risg(iau) a amlygwyd gan yr asesiad hwn, neu os na fyddai newid o'r fath yn osgoi unrhyw risg(iau) a nodwyd, efallai y bydd angen i'r fyfyrwraig gymryd amser allan o'i hastudiaethau er mwyn sicrhau bod y risgiau'n cael eu hosgoi – er y dylai'r Adran Academaidd wneud ymdrech gyflawn i reoli'r risgiau i iechyd a diogelwch a dod o hyd i ffyrdd amgen o ganiatáu i'r fyfyrwraig barhau â'i chwrs mewn unrhyw sefyllfa lle nad yw tynnu'n ôl dros dro yn cyd-fynd â'i dymuniadau.

**Cam 4:** Dylai myfyrwraig sy'n ystyried atal ei hastudiaethau neu newid y modd o astudio o amser llawn i ran-amser ystyried hyn yn gynnar gyda'i Hysgol a'r tîm Cyllid Myfyrwyr i ganfod unrhyw effaith bosibl y gallai'r hyblygrwydd a gynigir ei chael o ran talu ffioedd dysgu. Sylwch nad yw myfyrwyr rhyngwladol yn y Deyrnas Unedig sydd â Fisa Haen 4 Myfyrwyr Cyffredinol yn cael newid i astudio'n rhan-amser.

**Sylwch: os yw'r fyfyrwraig wedi cael bwrsariaeth neu ysgoloriaeth, rhaid hefyd iddi drafod goblygiadau unrhyw absenoldeb gyda'r corff cyllido.**

**Cam 5**: Dylai'r fyfyrwraig a'r aelod o'r staff gyfarfod i drafod a chytuno ar gynllun ysgrifenedig ar gyfer parhad astudiaethau'r fyfyrwraig (gan fanylu ar unrhyw hyblygrwydd penodol y cytunwyd arno i ganiatáu i'r fyfyrwraig barhau â'i hastudiaethau) a dylai copi gael ei gadw gan y fyfyrwraig a'r Adran Academaidd. Os yw'r cyfaddasiadau y cytunwyd arnynt yn dod o dan amgylchiadau lliniarol, dylid llenwi'r ffurflen berthnasol a'i chyflwyno yr un fath ag arfer.

Pan nad yw myfyrwraig yn fodlon ar y mesur o hyblygrwydd a gynigir, gall ofyn i'w Thiwtor Personol neu ei Goruchwylydd Ymchwil am wybodaeth am y gweithdrefnau cwyno lleol neu wneud cwyn ffurfiol, os yw'n briodol – yn unol â'r Weithdrefn Cwynion Myfyrwyr. Mae Gwasanaeth Cynghori Undeb Myfyrwyr Aberystwyth ar gael i roi cyngor ar gyflwyno apêl neu gŵyn.

**Cam 6:** Dylai'r aelod o'r staff sy'n goruchwylio'r trefniadau cymorth gyfleu'r cynllun parhad y cytunwyd arno i'r Tiwtor Personol/Goruchwylydd Ymchwil ac i'r staff addysgu a/neu'r byrddau arholi perthnasol eraill, fel y bo'n briodol. Dylid trosglwyddo'r wybodaeth mewn modd sensitif.

**Cam 7:** Dylai'r fyfyrwraig a'i Thiwtor Personol/goruchwylydd (neu'r aelod arall o'r staff a ddewiswyd neu a ddynodwyd) fonitro'r sefyllfa yn barhaus, yn enwedig i asesu effeithiolrwydd unrhyw drefniadau arbennig sydd wedi'u cytuno i hwyluso astudiaeth barhaus y fyfyrwraig.

Gall y fyfyrwraig ofyn am ragor o gyfarfodydd gyda'i Thiwtor Personol neu ei Goruchwylydd Ymchwil os yw'n cael unrhyw anawsterau gyda'i gwaith academaidd o ganlyniad i'r trefniadau hyn.

## Beichiogrwydd

Mae'r Brifysgol yn ceisio cefnogi unrhyw fyfyrwraig neu ymgeisydd sy'n feichiog, sydd wedi rhoi genedigaeth o fewn y flwyddyn ddiwethaf, sydd wedi cael erthyliad, sydd wedi profi camesgoriad, marw-enedigaeth neu farwolaeth newydd-anedig, sydd wrthi'n mabwysiadu neu'n maethu plentyn, neu sydd â phartner sy'n feichiog, sydd wedi rhoi genedigaeth o fewn y flwyddyn ddiwethaf, sydd wedi cael erthyliad, sydd wedi profi camesgoriad, marw-enedigaeth neu farwolaeth newydd-anedig, neu sydd wrthi'n mabwysiadu neu'n maethu plentyn. Bydd cymorth yn cael ei deilwra at anghenion unigol y fyfyrwraig neu'r ymgeisydd.

Pan fo myfyrwraig neu ymgeisydd wedi datgelu eu bod yn feichiog, dylid cymryd y camau a ganlyn:

Dylid cynnal **Asesiad Risg Beichiogrwydd** i nodi unrhyw risg i'r fyfyrwraig neu'r ymgeisydd, ac i'r plentyn yn y groth, i addasu unrhyw weithdrefnau neu weithgareddau sy'n ymwneud â'r fyfyrwraig neu'r ymgeisydd, ac i nodi unrhyw addasiadau rhesymol y mae eu hangen i sicrhau diogelwch, iechyd a lles y fyfyrwraig neu'r ymgeisydd a'r plentyn heb ei eni. Mae canllawiau a thempledi ar gyfer yr Asesiad Risg Beichiogrwydd ar gael i staff.

Dylid ymgymryd â **Chynllun Cymorth Myfyrwyr** i roi trefniadau cymorth ar waith am gyfnod y beichiogrwydd. Y cynllun cymorth myfyrwyr yw'r mecanwaith ar gyfer cofnodi a monitro anghenion y fyfyrwraig yn rheolaidd. Bydd y swyddogaeth bwysig hon fel arfer yn cael ei chwblhau gan y Tiwtor Personol neu'r Goruchwylydd Ymchwil, a fydd yn gweithio gyda'r fyfyrwraig trwy gydol ei beichiogrwydd i fonitro ac adolygu'r cymorth y cytunwyd arno. Mae'r ffurflen cymorth myfyrwyr yn cofnodi'r cymorth ac yn sicrhau bod anghenion y fyfyrwraig yn cael eu hateb yn ystod y beichiogrwydd. Mae hon yn ddogfen fyw y mae angen ei hadolygu a'i diweddaru'n rheolaidd. Mae'r ffurflen a siart llif ar gael fel atodiad i'r ddogfen hon a byddant yn nodi amserau adolygu. Mae'r ffurflen gymorth yn cynnwys cyfeiriad at: Cyfathrebu â'r fyfyrwraig a Gwybodaeth i staff a myfyrwyr eraill

Dylid cynnal trafodaethau gyda'r fyfyrwraig neu'r ymgeisydd mewn perthynas â'u cynlluniau ar gyfer absenoldeb a / neu astudio ar ôl geni'r plentyn. Gellir datblygu cynllun cychwynnol ar gyfer hyn, yn unol â'r adran isod ar absenoldeb teuluol. Er hynny, fe allai'r fyfyrwraig neu'r ymgeisydd ddymuno newid eu cynlluniau yn dilyn genedigaeth y plentyn, a dylai'r Brifysgol ymateb yn hyblyg yn y sefyllfa hon.

Gall myfyrwyr nad ydynt yn rhoi genedigaeth yn bersonol ond sy'n dod o dan gylch gwaith y polisi hwn fod angen cyfnodau o absenoldeb neu hyblygrwydd cyn geni, maethu neu fabwysiadu plentyn. Bydd y Brifysgol yn ymateb yn ffafriol i geisiadau o'r natur hon. Dylid ymgymryd â Chynllun Cymorth Myfyrwyr i roi trefniadau cymorth ar waith yn ystod y cyfnod perthnasol. Er enghraifft, gall hyn gynnwys amser i ffwrdd i fynd i apwyntiadau meddygol,

gwrandawiadau neu achosion cyfreithiol, amser i wneud trefniadau i groesawu plentyn i gartref, neu addasu terfynau amser ar gyfer asesiadau. Mae canllawiau a thempled ar gyfer y Cynllun Cymorth Myfyrwyr ar gael yn Atodiad B.

Pan nad yw myfyrwraig wedi datgelu beichiogrwydd, ni ddylai'r staff dybio ei bod yn feichiog, ac ni ddylent ofyn i fyfyrwraig a ydy hi'n feichiog. Pan fo myfyrwraig wedi datgelu beichiogrwydd ond yn gwrthod Asesiad Risg Beichiogrwydd neu gymorth o dan y broses hon, dylid rheoli unrhyw bryderon am ffitrwydd y fyfyrwraig i astudio o dan y Polisi Cymorth i Astudio.

## Marw-enedigaeth, Marwolaeth newydd-anedig, Erthyliad neu Gamesgoriad

Mae'r Brifysgol yn ceisio cefnogi unrhyw fyfyrwraig sy'n profi camesgoriad, marw-enedigaeth, neu farwolaeth newydd-anedig. Pan fo myfyrwraig yn datgelu ei bod wedi profi camesgoriad, marw-enedigaeth neu farwolaeth newydd-anedig, mae cymorth ar gael gan adran Gwasanaethau Lles Myfyrwyr y Brifysgol studentwellbeing@Aber.ac.uk a'r Gwasanaethau Caplaniaeth.

Rydym yn sylweddoli y bydd adegau yn anffodus pan na fydd beichiogrwydd yn mynd yn unol â'r cynllun, nad yw parhau â'r beichiogrwydd yn opsiwn neu y cewch chi gamesgoriad, neu lle gall marwolaeth ddigwydd yn fuan ar ôl genedigaeth (marwolaeth newydd-anedig). Byddwn yn ystyried effaith y digwyddiadau hyn ar eich gallu i fod yn bresennol, i gadw at derfynau amser ac i sefyll arholiadau. Mae hyn yn cynnwys os yw eich partner wedi cael ei effeithio a'i bod hithau hefyd yn fyfyrwraig ym Mhrifysgol Aberystwyth.

Pan ofynnir am hynny, gall myfyrwraig gymryd absenoldeb o'r Brifysgol. Ni fydd gofyn i fyfyrwyr atal eu hastudiaethau am gyfnod absenoldeb o bythefnos, ac fe allai cyfnodau hirach o absenoldeb gael eu cytuno heb ofyniad i atal astudiaethau ar sail unigol rhwng y fyfyrwraig a'i Thiwtor Personol neu ei Goruchwylydd Ymchwil lle bo'n ymarferol. Rhaid gofyn am gyngor y Tîm Myfyrwyr Rhyngwladol a Thîm Cydymffurfiaeth UKVI international.advisor@Aber.ac.uk wrth ystyried cyfnod hirach o absenoldeb heb ataliad yn achos myfyrwraig sy'n astudio ar Fisa Myfyrwyr.

Bydd myfyrwyr yn cael atal eu hastudiaethau os ydyn nhw'n dewis gwneud hynny, a hynny fel arfer am gyfnod o hyd at flwyddyn, yn unol â phroses y Brifysgol ar gyfer Absenoldeb Dros Dro. Er hynny, bydd y Brifysgol yn ystyried unrhyw geisiadau am gyfnod hirach o absenoldeb yn ofalus, fesul achos, a bydd yn dangos hyblygrwydd lle mae myfyrwraig yn gwneud cais o'r fath a lle gellir sicrhau parhad yn ei hastudiaethau heb anfantais. Pan fydd myfyrwraig yn dymuno cadw mewn cysylltiad â'i hastudiaethau yn ystod cyfnod absenoldeb o'r fath, caniateir iddi barhau i gael mynediad i Amgylchedd Dysgu Rhithwir y Brifysgol, y llyfrgell a chyfleusterau dysgu eraill, er na chaniateir i'r fyfyrwraig fod yn bresennol fel arfer mewn gweithgareddau

dysgu ac addysgu ar yr amserlen na chyflwyno asesiadau yn ystod cyfnod yr ataliad (gellir gwneud rhai eithriadau pan fo asesiadau i fod i gael eu cyflwyno'n gynnar yng nghyfnod yr ataliad yn achos astudiaethau modiwlau cyn cyfnod yr ataliad).

Pan nad yw myfyrwraig yn dymuno cymryd cyfnod hirach o absenoldeb, bydd y Brifysgol yn ceisio dangos hyblygrwydd o ran caniatáu'r patrwm ymgysylltu a ffefrir gan y fyfyrwraig. Bydd hyn yn cael ei ystyried fesul achos, a'i nodi mewn Cynllun Cymorth Myfyrwyr, gan ystyried anghenion y fyfyrwraig a'r rhaglen astudio, a gall gynnwys astudio llai o fodiwlau a lledaenu'r astudiaethau dros gyfnod hirach; cefnogi cyfnod o ddysgu ar-lein; addasu terfynau amser asesiadau; addasu patrymau ymchwil; ni fydd angen i'r fyfyrwraig ofyn am estyniadau na chyflwyno hawliad am Amgylchiadau Arbennig mewn perthynas ag asesiadau gohiriedig pan fo trefniadau o'r fath wedi'u nodi mewn Cynllun Cymorth Myfyrwyr. Mae canllawiau a thempled ar gyfer y Cynllun Cymorth Myfyrwyr ar gael yn Atodiad B.

Ar ôl dychwelyd o unrhyw gyfnod absenoldeb, dylid cynnig cyfarfod i'r fyfyrwraig gyda'i Thiwtor Personol neu ei Goruchwylydd Ymchwil i'w helpu i ddychwelyd i astudio.

Dylid cynghori myfyrwyr i ofyn am gyngor ynghylch goblygiadau ariannol atal eu hastudiaethau neu ymestyn eu cyfnod astudio gan Dîm Bywyd Myfyrwyr y Brifysgol student.advisor@aber.ac.uk Dylid cynghori myfyrwyr sy'n astudio ar Fisa Myfyrwyr i ofyn am gyngor ynghylch unrhyw oblygiadau o safbwynt fisa gan y tîm Cymorth Myfyrwyr Rhyngwladol a Thîm Cydymffurfiaeth UKVI international.adviser@aber.ac.uk

Gall y Gymdeithas Camesgor gynnig cefnogaeth (gweler www.miscarriageassociation.org.uk/). Mae SANDS yn cyhoeddi nifer o lyfrynnau am ddim y gellir eu cyrchu yn www.uk-sands.org/

## Terfynu Beichiogrwydd

Gall myfyrwraig benderfynu terfynu beichiogrwydd am sawl rheswm, megis amgylchiadau personol, oherwydd risgiau i'w hiechyd, neu oherwydd bod tebygolrwydd uchel y bydd gan y baban gyflwr meddygol difrifol. Pan fo myfyrwraig yn datgelu ei bod wedi cael erthyliad neu'n ystyried cael erthyliad, neu fod eu partner neu eu cyd-riant, neu fam fenthyg, yn ystyried erthyliad neu wedi cael erthyliad, mae cymorth ar gael gan Wasanaeth Cwnsela'r Brifysgol studentwellbeing@aber.ac.uk a'r Gwasanaeth Caplaniaeth hello@Aberchaplains.uk

Efallai y bydd angen i fyfyrwyr gymryd amser i ffwrdd o astudio i gael profion cyn erthyliad, ac i ymadfer ar ei ôl. Pan fo myfyrwraig yn datgelu ei bod wedi cael erthyliad neu'n ystyried cael un, neu ei bod wedi cael ei heffeithio gan un, dylid llunio Cynllun Cymorth Myfyrwyr er mwyn sicrhau bod cymorth a hyblygrwydd yn cael eu darparu mewn perthynas ag amser i ffwrdd o'r astudiaethau, terfynau amser asesiadau etc. Ni fydd angen i fyfyrwyr ofyn am estyniadau na

chyflwyno hawliad am Amgylchiadau Arbennig mewn perthynas ag asesiadau gohiriedig lle mae trefniadau o'r fath wedi'u nodi mewn Cynllun Cymorth Myfyrwyr.

Mae pob unigolyn yn wahanol, a bydd effaith erthyliad yn cael ei theimlo'n wahanol gan unigolion gwahanol.  Pan ofynnir am hynny, gall myfyrwraig gymryd gwyliau o'r Brifysgol i ddelio ag effaith erthyliad, p'un a ydy hi wedi cael yr erthyliad yn bersonol neu fod ei phartner neu ei chyd-riant neu fam fenthyg wedi cael erthyliad.  Ni fydd gofyn i fyfyrwyr atal eu hastudiaethau am gyfnod absenoldeb o bythefnos, a gellir cytuno ar gyfnodau hirach o absenoldeb heb ofyniad i atal astudiaethau ar sail unigol rhwng y fyfyrwraig a'i Thiwtor Academaidd Personol neu ei Goruchwylydd Ymchwil lle bo’n ymarferol.  Rhaid gofyn am gyngor gan y tîm Cymorth Myfyrwyr Rhyngwladol a Thîm Cydymffurfiaeth UKVI wrth ystyried cyfnod hirach o absenoldeb heb ataliad i fyfyrwraig sy'n astudio ar Fisa Myfyrwyr.

Bydd myfyrwyr yn cael atal eu hastudiaethau a thynnu’n ôl dros dro os ydyn nhw’n dewis gwneud hynny.  Bydd hyn fel arfer am gyfnod o hyd at flwyddyn, yn unol â pholisi'r Brifysgol ar Atal Astudiaethau.  Er hynny, bydd y Brifysgol yn ystyried unrhyw geisiadau am gyfnod hirach o absenoldeb yn ofalus, fesul achos, a bydd yn dangos hyblygrwydd pan fo myfyrwraig yn gwneud cais o'r fath a lle bo modd sicrhau bod yr astudiaethau’n parhau heb anfantais.  Pan fydd myfyrwraig yn dymuno cadw mewn cysylltiad â'i hastudiaethau yn ystod cyfnod absenoldeb o'r fath, caniateir iddi barhau i gael mynediad i Amgylchedd Dysgu Rhithwir y Brifysgol, y llyfrgell a chyfleusterau dysgu eraill, er na chaniateir i’r fyfyrwraig fod yn bresennol fel arfer mewn gweithgareddau dysgu ac addysgu ar yr amserlen na chyflwyno asesiadau yn ystod cyfnod yr ataliad (gellir gwneud rhai eithriadau pan fo asesiadau i fod i gael eu cyflwyno’n gynnar yng nghyfnod yr ataliad yn achos astudiaethau modiwlau cyn cyfnod yr ataliad).

Pan nad yw myfyrwraig yn dymuno cymryd cyfnod hirach o ataliad, bydd y Brifysgol yn ceisio dangos hyblygrwydd o ran caniatáu’r patrwm ymgysylltu a ffefrir gan y fyfyrwraig.  Bydd hyn yn cael ei ystyried fesul achos, a'i nodi mewn Cynllun Cymorth Myfyrwyr, gan ystyried anghenion y fyfyrwraig a'r rhaglen astudio, a gall gynnwys astudio llai o fodiwlau a lledaenu’r astudiaethau dros gyfnod hirach; cefnogi cyfnod o ddysgu ar-lein; addasu terfynau amser asesiadau; addasu patrymau ymchwil; ni fydd angen i’r fyfyrwraig ofyn am estyniadau na chyflwyno hawliad am Amgylchiadau Arbennig mewn perthynas ag asesiadau gohiriedig pan fo trefniadau o'r fath wedi'u nodi mewn Cynllun Cymorth Myfyrwyr. Mae canllawiau a thempled ar gyfer y Cynllun Cymorth Myfyrwyr ar gael yn Atodiad B.

1. Ar ôl dychwelyd o unrhyw gyfnod o absenoldeb, dylid cynnig cyfarfod i'r myfyrwyr gyda'u Tiwtor Personol neu eu Goruchwylydd Ymchwil i’w helpu i ddychwelyd i astudio.
2. Dylid cynghori myfyrwyr i ofyn am gyngor ar oblygiadau ariannol atal eu hastudiaethau neu ymestyn eu cyfnod astudio gan yr Adran Gwasanaethau Myfyrwyr cynghorydd-myfyrwyr@aber.ac.uk.  Dylid cynghori myfyrwyr sy'n

astudio ar Fisa Myfyrwyr i ofyn am gyngor ar unrhyw oblygiadau fisa gan y Cynghorydd Cymorth Myfyrwyr Rhyngwladol (immigrationadvice@aber.ac.uk).

3. Mae'r elusen Antenatal Results and Choices (http://www.arc-uk.org) yn rhoi cyngor penodol i fyfyrwyr sy'n ystyried erthyliad am resymau sy'n ymwneud â chanlyniadau profion cynenedigol.

## Absenoldebau oherwydd Apwyntiadau

Lle bo modd, dylai apwyntiadau oherwydd gofal cynenedigol, mabwysiadu neu faethu ddigwydd y tu allan i amser addysgu neu amser lleoliad. Er hynny os nad yw hyn yn bosibl, ceisiwch leihau effaith eich absenoldeb drwy ei drefnu ar ddechrau neu ddiwedd y dydd.

Os ydych chi'n rhiant neu'n warcheidwad cyfreithiol efallai y bydd adegau pan fydd gofyn ichi gymryd peth amser allan i ofalu am blentyn sâl, bwydo o'r fron, cymryd absenoldeb mamolaeth neu dadolaeth, cymryd absenoldeb rhiant yn sgil setlo plentyn yn y cartref ar ôl genedigaeth drwy fenthyg croth, mabwysiadu neu wrth faethu etc. Dylid trafod unrhyw amgylchiadau o'r fath ar unwaith gyda thiwtor personol neu oruchwylydd ymchwil eich adran er mwyn cytuno ar y ffordd orau ymlaen a lleihau'r effaith ar eich astudiaethau (sylwch y bydd hyblygrwydd yn cael ei ddangos lle bo'n bosibl ond y gall amserlenni rhai cyrff proffesiynol, cyrff rheoleiddio a chyrff dyfarnu gyfyngu ar ba mor hyblyg).

## Mabwysiadu a Maethu

Os ydych chi wedi cael eich paru i fabwysiadu neu faethu, trafodwch gyda'ch Tiwtor Personol/ Goruchwylydd sut y gallai hyn effeithio ar eich presenoldeb a'ch astudiaethau yn enwedig os oes arnoch angen amser i ffwrdd. Yna gall eich Tiwtor Personol/Goruchwylydd Ymchwil a chi lunio cynllun gweithredu. Os eich partner yw'r prif fabwysiadwr, dylech drafod absenoldeb rhiant fel y'i hamlinellir yn yr adran Absenoldeb Rhiant.

## Apwyntiadau, Gofal Cyn-fabwysiadu ac Apwyntiadau Cyn-fabwysiadu/Cyn-faethu

Os ydych yn feichiog neu os oes angen ichi fynd i apwyntiadau cyn mabwysiadu/maethu, mae gennych hawl i gael amser rhesymol i ffwrdd i fynd i apwyntiadau. Lle bynnag y bo modd, dylid trefnu apwyntiadau y tu allan i amser addysgu neu ar ddechrau neu ddiwedd diwrnod gwaith y lleoliad. Rydym yn sylweddoli na fydd hyn bob amser yn bosibl.

Os ydych am ddod yn rhiant, bydd gennych hawl i ofyn am amser allan o'ch astudiaethau. Mae hyn yn debygol o gynnwys amser i ffwrdd ar gyfer apwyntiadau meddygol/cyn mabwysiadu/maethu yn ogystal â chyfnod o absenoldeb rhiant. Dangosir hyblygrwydd lle bo modd er y gallai hyn fod yn fwy cyfyngedig mewn rhai dyfarniadau nag eraill. Os yw hyn yn

gymwys i chi, yna dylech wneud apwyntiad gyda staff y tîm Cyngor, Gwybodaeth ac Arian (AIMS) i drafod hyn.

Os ydy'ch cwrs wedi'i gymeradwyo gan gyrff proffesiynol, statudol neu reoleiddiol e.e., Nyrsio Oedolion, dylech drafod goblygiadau'r amser a gollir yn ymarfer gyda'ch Arweinydd Cwrs / Tiwtor Personol / Goruchwylydd neu aelod dynodedig o'r staff e.e., cydlynydd lleoliad, er mwyn sicrhau nad yw hyn yn cael effaith negyddol ar eich astudiaethau.

## Asesiadau a Lleoliadau yn ystod Absenoldeb Rhiant

Os ydych chi'n dewis sefyll arholiad tra bo'ch partner yn esgor neu yn ystod eich absenoldeb rhiant, neu os nad ydych yn gallu sefyll arholiad neu gyflwyno gwaith cwrs yn brydlon oherwydd eich beichiogrwydd, eich esgoriad, eich marwolaeth newydd-anedig, eich camesgoriad, neu'ch marw-enedigaeth chi'ch hun neu o eiddo'ch partner, neu os nad ydych yn gallu ymgymryd â theithiau maes neu leoliadau gwaith, neu gwblhau gwaith labordy o ganlyniad uniongyrchol i anawsterau sy'n deillio o feichiogrwydd, fe allech ystyried gwneud cais am estyniadau neu amgylchiadau arbennig.

## Bwydo ar y Fron a Thynnu Llaeth

Os ydych chi'n bwydo ar y fron efallai y byddwch chi'n dymuno tynnu llaeth fel bod eich plentyn yn gallu cael llaeth y fron pan nad ydych chi ar gael. Os oes arnoch angen rhywle i dynnu'ch llaeth, rhowch wybod i'ch Tiwtor Personol / Goruchwylydd Ymchwil a bydd trefniadau'n cael eu trafod gyda chi.

Os oes arnoch chi angen amser allan o'ch cwrs neu'ch lleoliad i fwydo o'r fron neu dynnu llaeth, trafodwch a lluniwch gynllun gweithredu y cytunwyd arno gyda'ch Tiwtor Personol/Goruchwylydd Ymchwil.

Gweler yr adran Myfyrwyr ar leoliad/ Dysgu yn y Gweithle i gael gwybodaeth am fwydo o'r fron a thynnu llaeth yn eich lleoliad/gweithle.

## Asesiadau Cwrs ac Arholiadau yn ystod Beichiogrwydd

Ran amlaf, fydd dim angen gwneud newidiadau i asesiadau cwrs nac arholiadau oherwydd beichiogrwydd oni bai:

- Bod y math o asesiad cwrs yn golygu eich rhoi chi a/neu blentyn yn y groth yn wynebu risg
- Bod yna gymhlethdodau sy'n gysylltiedig â beichiogrwydd ac sy'n golygu na allwch ymgymryd ag asesiadau cwrs ac arholiadau
- Y byddai effaith gorfforol beichiogrwydd hwyr neu feichiogrwydd lluosog (e.e., efeilliaid) yn golygu eich bod yn cael eich rhoi o dan anfantais mewn asesiadau cwrs ac arholiadau arferol.

Gall hyn fod yn arbennig o berthnasol i gyrsiau lle bo elfennau ymarferol i'r asesiadau e.e., cyrsiau Gwyddorau/Iechyd. O dan yr amgylchiadau hyn dylid ystyried addasiadau rhesymol i asesiadau cwrs ac arholiadau yn unol â'r [Polisi Addasiadau Rhesymol ar gyfer Arholiadau]. Rydym yn cydnabod na fydd hyn bob amser yn bosibl.

Dylai myfyrwyr graddau Meistr a Addysgir a Meistr drwy Ymchwilio, myfyrwyr PhD a myfyrwyr Doethuriaeth Proffesiynol gysylltu â'u Harweinydd Cwrs/Goruchwylwyr ynghylch effaith bosibl beichiogrwydd ar eu hastudiaethau neu eu hymchwil.

Os na allwch ymgymryd ag asesiadau cwrs neu arholiadau oherwydd trafferthion sy'n codi o ganlyniad i feichiogrwydd, gallech ystyried gwneud cais am estyniadau neu amgylchiadau arbennig.

## Triniaeth Ffrwythlondeb

Rydym yn cydnabod yr heriau a all godi o gael triniaethau ffrwythlondeb.

Os ydych yn cael triniaeth ffrwythlondeb, efallai y bydd arnoch angen cymorth ychwanegol oherwydd:

- effaith triniaeth feddygol
- cyfrifoldebau gofalu eraill
- apwyntiadau meddygol cysylltiedig.

Os yw'ch partner yn cael triniaeth ffrwythlondeb, yna efallai y bydd yn bosibl i chithau fynd i apwyntiadau gyda'ch partner.

Os oes arnoch angen cymorth, gwnewch apwyntiad gyda'n tîm Cyngor, Gwybodaeth ac Arian (AIMS).

## Cymorth Ariannol

Os oes gennych gyfrifoldebau gofalu am blant neu oedolion dibynnol gallech fod yn gymwys i gael cymorth ariannol ychwanegol gan Cyllid Myfyrwyr neu gan noddwyr ariannol eraill e.e., grantiau heb fod yn ad-daladwy.

Gall y cymorth ariannol sydd ar gael fod yn wahanol gan ddibynnu a ydych chi'n Fyfyrwraig Israddedig, Ôl-raddedig neu Ymchwil a Addysgir, felly rydym yn eich cynghori'n gryf i sicrhau cymorth ariannol a chysylltu â Gwasanaeth Cynghori Undeb Myfyrwyr Aberystwyth.

## Ystyriaethau Iechyd a Diogelwch

Os ydych chi'n feichiog neu wedi rhoi genedigaeth o fewn y chwe mis blaenorol, neu os ydych chi'n bwydo ar y fron, gallwch wynebu risgiau penodol i'ch iechyd chi ac i iechyd eich plentyn neu'ch babi yn y groth. I'r rhan fwyaf o famau newydd, mamau beichiog neu famau sy'n bwydo

ar y fron, mae mesurau Iechyd a Diogelwch arferol yn ddigonol. Wrth gymryd rhan yn un o weithgareddau'r Brifysgol, bydd lefel y risg rydych chi'n agored iddi yn dibynnu ar y canlynol:

- gofynion a natur y digwyddiad neu'r gweithgarwch
- eich amgylchiadau unigol, gan fod yna newidiadau ffisiolegol a seicolegol yn ystod beichiogrwydd a allai'ch gwneud chi'n fwy agored i niwed.

Dyma rai o'r peryglon mwyaf cyffredin:

- codi, trin, cario llwythi trwm
- osgo, teithio, blinder meddyliol a chorfforol
- gweithfannau, gweithio ar uchder, neu weithio ar eich pen eich hun
- sefyll neu eistedd yn llonydd am gyfnodau hir
- dod i gysylltiad ag asiantau biolegol, sylweddau niweidiol neu sylweddau risg uchel, neu ddeunydd ymbelydrol
- amlygiad i siociau, dirgryniadau, sŵn gormodol, neu wres eithafol.

Yn benodol:

- Y risg uchaf o niwed i fabi yn y groth yw yn ystod y 13 wythnos gyntaf o'r beichiogrwydd
- Wrth fwydo ar y fron, mae risg o basio cemegau neu asiantau biolegol penodol i'ch babi drwy gyfrwng eich llaeth.

Mae'n bwysig eich bod yn dweud wrthon ni am unrhyw gyngor rydych chi wedi'i gael gan feddyg neu fydwraig (er enghraifft cyflyrau meddygol sy'n gysylltiedig â beichiogrwydd fel pwysedd gwaed uchel, hanes o gamesgoriad) a allai effeithio ar yr asesiad risg.

## Myfyrwyr ar Leoliad/Dysgu yn y Gweithle

Os ydych yn feichiog cyn dechrau lleoliad neu os byddwch yn dod yn feichiog ar leoliad dylech drafod goblygiadau beichiogrwydd (mewn perthynas ag Iechyd a Diogelwch, gofynion cyrsiau, anghenion cymorth etc) gyda'ch Arweinydd Cwrs, Tiwtor Personol, Goruchwylydd neu aelod dynodedig arall o'r staff e.e. , swyddog lleoliad. Os yw'ch partner neu chithau'n cael triniaeth ffrwythlondeb, neu'n mynd drwy'r broses fabwysiadu, dylech drafod goblygiadau hyn hefyd o ran eich lleoliad, er mwyn sicrhau bod cynllun gweithredu'n cael ei gytuno gan bawb sy'n gysylltiedig â'r mater.

Os ydych mewn amgylchedd dysgu yn y gweithle, (e.e., lleoliad) yna dylech drafod trefniadau ar gyfer asesiad risg Iechyd a Diogelwch gyda'ch cyflogwr. Os yw'n ofynnol ichi ymgymryd â lleoliad fel rhan o'ch cwrs, dylai'r Adran gysylltu â'r darparwr lleoliad er mwyn sicrhau bod asesiad Iechyd a Diogelwch yn cael ei gynnal gan y sefydliad y byddwch yn gwneud eich lleoliad ynddo.

Mae'n bwysig eich bod yn trafod goblygiadau beichiogrwydd, mamolaeth a thriniaeth ffrwythlondeb neu fabwysiadu gyda'ch lleoliad / goruchwylydd gweithle / goruchwylydd gradd

ymchwil, er mwyn trafod a chytuno ar addasiadau mewn arferion gwaith. Gan ddibynnu ar natur eich lleoliad / gweithle bydd rhai addasiadau na fydd modd realistig eu rhoi ar waith oherwydd natur y gwaith sy'n cael ei wneud gan gynnwys addasiadau sy'n gysylltiedig â bwydo ar y fron, tynnu a storio llaeth e.e., labordai biofeddygol. Hefyd, efallai na fydd bob amser yn bosibl ichi gymryd amser i ffwrdd o'ch lleoliad/gweithle ar gyfer apwyntiadau e.e., shifftiau gwaith fel rhan o leoliad iechyd neu os ydych yn brentis. Mae hyn yn gymwys i bob myfyrwraig sy'n ymgymryd â lleoliadau neu'n dysgu yn y gweithle, gan gynnwys myfyrwyr sy'n ymgymryd â dyfarniadau mewn sefydliadau partner.

## Gwahaniaethu, Bwlio ac Aflonyddu

Rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod unrhyw un sy'n astudio yn y brifysgol yn gallu gwneud hynny heb ofni gwahaniaethu. Rydym am i bawb brofi diwylliant agored lle mae pawb yn cael eu gwerthfawrogi'n gyfartal ac yn cael eu parchu.

Ni fyddwn yn goddef gweld unrhyw unigolyn yn dioddef camdriniaeth, aflonyddu neu fwlio yn enwedig oherwydd eu nodweddion personol – sef Beichiogrwydd a Mamolaeth yn yr achos hwn.

Os ydych wedi dioddef camdriniaeth, aflonyddu neu fwlio am unrhyw reswm, dywedwch wrthon ni a byddwn yn ymchwilio i'r mater. Os hoffech wneud cwyn, gweler yr adran Cwynion.

## Anghydfodau a Chwynion

Os bydd anghytundeb yn codi rhwng myfyrwraig neu ei phartner a staff academaidd neu staff cymorth ynghylch sut y dylid gweithredu'r polisi hwn mewn perthynas â'u hamgylchiadau, gellir gofyn i'r Cofrestrydd Academaidd gynghori neu wneud y penderfyniad terfynol.

Gall myfyrwyr sy'n anfodlon ar y modd y mae'r Brifysgol wedi delio â'r polisi hwn mewn perthynas â'u hamgylchiadau gwyno drwy ddefnyddio'r Gweithdrefnau Cwynion Myfyrwyr.

Gall ymgeiswyr sy'n anfodlon ar y modd y mae'r Brifysgol wedi ymdrin â'r polisi hwn mewn perthynas â'u hamgylchiadau gwyno drwy ddefnyddio'r Rheoliadau sy'n Llywodraethu Apelau a Chwynion Ymgeiswyr yn erbyn agwedd o'u Proses Dderbyn. caostaff@Aber.ac.uk

## Monitro ac adolygu

Bydd y modd y gweithredir y polisi yn cael ei adolygu ymhen blwyddyn er mwyn sicrhau ei effeithiolrwydd. Wedi hynny, bydd y polisi'n cael ei adolygu bob tair blynedd.

## Polisïau a safonau/dogfennau cysylltiedig

1. Polisi a Gweithdrefnau Diogelu
2. Polisïau AD
3. Iechyd, Diogelwch ac Amgylchedd - Llyfrgell Ddogfennau

# Atodiadau

Atodiad A: Siart Llif Cymorth Beichiogrwydd

Atodiad B: Canllawiau a Thempled Cynllun Cymorth Myfyrwyr